

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Polisi Llais y Dysgwr Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro

Ymrwymiad

Ategir y polisi hwn gan weledigaeth y Grŵp - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol, a bydd yn cefnogi'r Coleg i weithio tuag at ein prif sbardunau Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwff. Bydd y polisi'n ymgorffori'r egwyddorion a ganlyn:

- Rhaid i'r rhai sy'n cael mynediad i ddysgu ar draws y Grŵp fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i'w **galluogi** i gyflawni eu **potensial** wrth ddysgu, mewn amgylchedd sy'n dileu neu'n lleihau anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **symud ymlaen** yn llwyddiannus trwy eu bywydau.

Cwmpas a Phwrrpas y Polisi

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i roi dysgwyr yn gyntaf drwy wrando ar eu barn ac ymateb i'w barn. Credwn y bydd cynnig cyfle i ddysgwyr i gymryd rhan uniongyrchol mewn gwerthuso a gwella ansawdd eu profiad dysgu eu hunain yn cael effaith sylweddol ar ddatblygiad a llwyddiant ein dysgwyr, ein Grŵp a'n cymuned leol yn y dyfodol. Mae Llais y Dysgwr yn hanfodol i alluogi ein Grŵp i wneud penderfyniadau a fydd yn arwain at ddatblygiad mwyaf effeithiol y gwasanaethau addysgu, dysgu a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r dysgwr. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i lais ein dysgwyr gael eu clywed yn allanol er mwyn sicrhau eu bod yn dylanwadu ar ddigwyddiadau, gweithgareddau a pholisïau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Pwrrpas y polisi hwn yw nodi ein hymrwymiad i geisio barn ein dysgwyr, gwrandao arnynt a gweithredu ar eu barn. Bydd y buddion posibl yn cynnwys cyfranogiad cynyddol a pharhaus, cadw, cyflawniad, llwyddiant a dilyniant. Bydd y Grŵp yn cael gwell gwybodaeth o ansawdd am safbwyntiau'r dysgwyr y gellir ei defnyddio i lywio hunanasesu ac ysgogi newid effeithiol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob dysgwr ar bob rhaglen ddysgu waeth beth fo'r dull neu'r lleoliad astudio.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff y Grŵp.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl bartneriaid, rhanddeiliaid a sefydliadau masnachfaint.

Datganiadau Polisi

Rhif Adolygu:	2
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2024

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i:

Datblygu gweithdrefnau i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd i rannu eu barn ar bob agwedd ar eu taith fel dysgwr a dod yn gyfranogwyr gweithredol mewn llywodraethu, gwneud penderfyniadau, yn ogystal â gwella a sicrhwydd ansawdd. Bydd y gweithdrefnau hyn yn cynnwys ystod lawn o strategaethau a mecanweithiau sy'n cynnwys y dysgwr i hysbysu dysgwyr am y camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i'w safbwyntiau (lle y bo'n bosibl).

- Sicrhau bod adnoddau ar gael i gefnogi datblygiad llais y dysgwr.
- Creu cysylltiadau effeithiol ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) ac ymgorffori prosesau UCM o fewn holl weithdrefnau llais y dysgwr y Grŵp, gan ymateb i fentrau newydd lle y bo'n berthnasol. Bydd hyn yn cynnwys gwneud cysylltiadau â chyrff UCM mewn sefydliadau addysg uwch partner lle y bo'n berthnasol.
- Hyfforddi'r holl staff perthnasol yn y gweithdrefnau hyn.
- Rhoi gwybodaeth i bob dysgwr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o gyfleoedd llais y dysgwr.
- Cynnig cymorth i ddysgwyr i sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau llais y dysgwr.
- Cofnodi a monitro llais y dysgwr, gan wneud defnydd effeithiol o dystiolaeth a ddarperir i lywio ymarfer.

Byddwn yn sicrhau bod dysgwyr ar bob lefel a math o ddarpariaeth yn cael eu cyfeirio'n glir at unrhyw sefydliad neu gorff allanol sy'n goruchwyllo darpariaeth, safonau, disgwyliadau neu iawn megis corff dyfarnu, yr ASA neu'r Swyddfa Dyfarnwyr Annibynnol ar gyfer AU (y rhestr hon yw ddim yn gyflawn).

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethol yn gyfrifol am sicrhau:

- Bod y polisi'n cael ei adolygu'n rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) a rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Mae Uwch Reolwyr yn gyfrifol am:

- Adolygu'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Darparu adnoddau digonol i gefnogi gweithgareddau llais y dysgwr.
- Darparu hyfforddiant a datblygiad priodol a chefnogaeth i staff i sicrhau eu bod yn gallu dilyn y polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer.

Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am:

- Gweithredu yn unol â'r polisi a'r weithdrefn hon.
- Mynychu digwyddiadau DPP perthnasol.
- Rhoi gwybod i ddysgwyr am y polisi a'r gweithdrefnau a'u cefnogi i gael mynediad at unrhyw gymorth.

Mae pob dysgwr yn gyfrifol am:

- Mynychu sesiynau sefydlu a thiworial i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion y mae'n eu codi.
- Ymddwyn mewn ffordd sy'n cefnogi'r polisi, cymryd rhan mewn gweithgareddau llais y dysgwr a chodi unrhyw bryderon gyda staff addysgu neu staff cymorth i'w galluogi i gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt.
- Rhoi adborth.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Ystyrir canllawiau perthnasol Sefydliadau Addysg Uwch, ASA a chyrrff dyfarnu.

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Grŵp, ysgrifennwyd y polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n dod o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg h.y. ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd o ddydd i ddydd.

Bydd cymorth ac arweiniad yn ymwneud â chwynion yn cael eu darparu i bob dysgwr waeth ym mha iaith y maent yn penderfynu cyfathrebu.

Cyfeiriadau

Dolen i bolisïau a gweithdrefnau eraill:

Mae'r polisi hwn yn cysylltu â holl bolisïau'r Grŵp a gweithdrefnau sefydliadol gan fod llais y dysgwr wedi'i wreiddio drwyddi draw,

Gweithdrefnau ASA yn ymwneud â chynnwys y dysgwr

Gweithdrefnau Sefydliadau Addysg Uwch perthnasol ar gyfer cynnwys dysgwyr

Effeithiolrwydd strategaethau cynnwys y dysgwr mewn dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn seiliedig ar waith (Estyn 2014)

Canllawiau Strategaethau Cynnwys y Dysgwr ar gyfer darparwyr dysgu gydol oes a sgiliau yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2010)

Cyfathrebu a Storio

Cyhoeddir y polisi hwn ar wefan y cwmni.
Cedwir y polisi hwn ar fewnwyd y cwmni.
Rhennir y polisi hwn gyda dysgwyr.

Geirfa

Dim

Cymeradwyo, Newid ac Adolygu

Adolygir y polisi hwn bob 2 flynedd.

Dyddiad cymeradwyo: 7 Gorffennaf 2020

Cymeradwywyd gan: Prif Fwrdd

Dyddiad adolygu nesaf: Gorffennaf 2024

Rheolwr Cyfrifol: Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu

Arweinydd Gweithredol: : Is-bennaeth Ansawdd a Thaith y Dysgwr

Hygyrch i Fyfyrrwyr: : Ydi

Rhif Adolygu:	2
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2024